ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

SYSTEM DYLETSWYDD RHAN AMSER (RDS)

CANLLAW I GYFLOGWYR

CYNNWYS

1. Rhagair gan Simon Smith – Prif Swyddog Tân

2. System Dyletswydd Rhan Amser (RDS)
    a. Sut mae'n gweithio

3. Manteision i'r Cyflogwr
    a. Hysbysebu cadarnhaol
    b. Sgiliau ychwanegol
    c. Efallai y byddwch yn arbed arian drwy gyflogi diffoddwr tân
    d. Cefnogaeth iechyd galwedigaethol

4. Datblygiad Personol

5. Cwestiynau Cyffredinol

Rhagair gan Simon Smith – Prif Swyddog Tân

Mae rôl y diffoddwr tân modern wedi datblygu'n sylweddol yn ddiweddar; yn aml iawn, rydym ni'n gweld diffoddwyr tân yn atal trychinebau naturiol neu'n delio gyda chanlyniadau digwyddiadau trychinebus. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, atal tân ac addysgu'r gymuned a wasanaethant yw gweithgaredd craidd y diffoddwr tân modern.

Mae'r unigolyn yn derbyn parch y gymuned i'w hymrwymiad, ond, yn aml iawn, anghofir na ellir cyflawni'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu heb gefnogaeth eu teuluoedd neu brif gyflogwr.

Fel y Prif Swyddog Tân, fy nod yw darparu gwasanaeth tân ac achub proffesiynol, effeithiol ac effeithlon i bawb sy'n bwy, yn gweithio neu'n teithio drwy Ogledd Cymru. Rwy'n ymwybodol iawn ein bod ni angen sicrhau cydweithrediad ac ymrwymiad rhanddeiliaid lleol er mwyn cyflawni hyn.

Y System Dyletswydd Rhan Amser yw'r prif adnodd o ddiffoddwyr tân yng Ngogledd Cymru. Mae gennym ni dros 500 o aelodau sy'n darparu gwasanaeth hanfodol i amddiffyn ein cymunedau rhag argyfyngau dydd i ddydd.

Sut allwch chi helpu?

Trwy adael i'ch gweithwyr ymateb i argyfyngau yn ystod y diwrnod gwaith, byddwch chi'n cyfrannu at effeithiolrwydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a diogelwch y gymuned lle mae eich gweithwyr a chwsmeriaid yn teithio a byw.

Gall cyflogi diffoddwr tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser gyfrannu at ddiogelwch ac effeithiolrwydd eich safle wrth ddiogelu eich busnes am ychydig iawn neu ddim cost o gwbl.

Mae'r diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y System Dyletswydd Rhan Amser yn grŵp ymroddgar iawn o unigolion sy'n ymateb i argyfyngau yn ystod eu hamser rhydd neu drwy gytundeb gyda'u prif leoliad gwaith.* Mae'r arfer yma i'w ganmol yn fawr iawn a gwneir pob ymdrech i leihau'r effaith ar eich busnes.

Am ragor o wybodaeth, darllenwch gynnwys y pecyn, neu cysylltwch â'ch Swyddfa Ddiogelwch y Sir leol am ragor o wybodaeth.

Mae manylion y Swyddfeydd Diogelwch Sirol ar dudalen tu mewn i'r clawr y waled, neu ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

www.gwastan-gogcymru.org.uk

* Er mwyn i unigolyn allu ymateb i argyfwng o'u prif leoliad gwaith, rhaid iddynt allu teithio i orsaf dân o fewn 5 munud, gan gadw at reoliadau cyflymder ar y ffyrdd penodol.

Simon A Smith
Prif Swyddog Tân

2. Y SYSTEM DYLETSWYDD RHAN AMSER

Diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser

Mae diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn darparu gwasanaeth tân wrth gefn hanfodol yng Ngogledd Cymru. O'r 44 o orsafoedd tân, mae 36 ohonynt yn cael eu criwio gan y System Dyletswydd Rhan Amser yn unig; gyda chriwiau rhan amser pellach yn gweithredu o'r 8 o orsafoedd shifft neu griw dydd. Mae cyfanswm o dros 500 o ddiffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn cael eu cyflogi ar draws Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Mae oddeutu 83% o'n peiriannau rheng flaen yn cael eu staffio gan bersonél y system dyletswydd rhan amser, gan sicrhau fod gwasanaeth brys wrth gefn yn cael ei ddarparu ar draws ardal y Gwasanaeth.

Isod ceir gwybodaeth am leoliadau ein gorsafoedd yng Ngogledd Cymru:

Mae diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn ddynion ac yn ferched o amrywiaeth o gefndiroedd a swyddi gwahanol. Maent yn Weithwyr gyda Sgil, Arolygwyr, Athrawon, Gweithredwyr Cynhyrchu, Rheolwyr Cynhyrchu, Gweithwyr Swyddfa a llawer mwy o swyddi eraill sy'n rhy niferus i'w nodi. Mae Gwragedd Tŷ, Gwyr Tŷ a phobl Hunan Gyflogedig yn gweithio gyda'r system dyletswydd rhan amser, gan gyflwyno gwasanaeth wrth gefn fin nos, yn ystod y dydd ac ar y penwythnos. Maen nhw'n gweithio'n effeithiol fel rhan o dîm sy'n defnyddio'r offer, dulliau a thechnegau diweddaraf i ymgymryd ag amrediad eang o ddyletswyddau sy'n cynnwys mynychu tanau mewn eiddo, ymgymryd â mentrau diogelwch cymunedol, tanau glaswellt a thir amaethyddol, gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd, arllwysiadau cemegol a difrod llifogydd a storm.

Mae diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn cymryd rhan weithredol wrth atal tanau yn y cartref, yn gwneud archwiliadau diogelwch tân yn y cartref, yn cynnig cyngor am ddim i breswylwyr ar sut i ddileu, neu ostwng y risg o dân. Mae'r gwaith yma'n cael ei wneud yn eu hamser sbâr.

Mae swydd diffoddwr tân yn galw am ddewrder, penderfyniad, hunan ysgogiad ac yn fwy nag unrhyw beth arall, y dymuniad i wasanaethu'r gymuned lle maen nhw'n byw ac / neu weithio.

Sut mae'n gweithio?

Mae diffoddwyr tân y System Dyletswydd Rhan Amser yn cytuno i fod ar gael am nifer benodol o oriau'r wythnos; maen nhw'n cario peiriant galw a rhaid iddynt allu cyrraedd yr orsaf dân o fewn 5 munud o dderbyn yr alwad yn ystod eu cyfnod ar alwad. Mae llawer o ddiffoddwyr tân yn ymateb i alwadau brys o'r gwaith, ac ar ôl derbyn rhybudd gan eu peiriant galw, yn ymateb i'r orsaf er mwyn mynychu'r digwyddiad.

Oherwydd bod cymdeithas yn newid, un o'r prif broblemau rydym ni'n wynebu yw'r ffaith nad oes llawr o bobl yn byw ac yn gweithio yn yr un ardaloedd. Felly, mae llawer o Orsafoedd Tân Rhan Amser wedi eu criwio'n dda dros y penwythnos a min nos, ond nid yn ystod y dydd.

Mae hyn yn gallu arwain at beiriant yn methu bod ar gael i fynychu digwyddiad yn ei ardal ei hunan, a thra bydd peiriant (o ardal arall) yn ymateb bob tro, mae unrhyw oediad yn gallu golygu fod y digwyddiad yn dwysau ac fe allai olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth. ***Gallai caniatáu i un o'ch gweithwyr ymateb yn ystod y dydd wneud y gwahaniaeth.***

Mae'r adran Cymunedau a Llywodraeth Leol wedi datblygu pecyn i ddarparu gwybodaeth i gyflogwyr lleol am rôl y diffoddwr tân rhan amser (ar alwad).

Y nod yw annog cyflogwyr i ganiatáu i'w aelodau staff gael eu rhyddhau ar gyfer dyletswyddau ar alwad a helpu i egluro sut y gall busnesau a'r gymuned leol fanteisio o gael diffoddwr tân ar alwad yn y gweithle.

I edrych ar y pecyn am ddiffoddwyr tân alwad ewch i:

http://www.communities.gov.uk/publications/fire/oncallfirefighters

3 BUDDION I CHI'R CYFLOGWR

Hysbysebu Cadarnhaol

Mae rhai cyflogwyr wedi profi fod cael diffoddwr tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser wedi codi proffil eu cwmni. Mae'r wasg leol a chyhoeddiadau masnach yn dangos diddordeb rhoi'r sylw i'r cwmnïau hynny a'u gweithiwyr sy'n cefnogi'r gymuned leol yn aml iawn.

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ddelwedd gyhoeddus dda iawn ac mae adroddiadau yn y wasg leol yn gymorth wrth adeiladu ar y ddelwedd yma'n lleol. Felly, os fyddwch chi'n cefnogi diffoddwr tân y System Dyletswydd Rhan Amser, bydd y gymuned yn sylwi ar hyn a'ch natur gefnogol i'r gymuned.

Sgiliau Ychwanegol

- Mae diffoddwyr tân yn dod â sgiliau'n ôl i'r gweithle drwy'r hyfforddiant a'r profiadau maent yn derbyn. Mae eu gwaith yn hanfodol i ddiogelu pobl ac eiddo yn yr ardal ac mae cefnogaeth y cyflogwyr i ganiatáu eu staff i ymateb yn angenrheidiol.

- Y sgiliau sydd ganddynt i gynnig – Mae diffoddwr tân wedi ei hyfforddi yn dysgu llawer o sgiliau, nifer ohonynt yn ddefnyddiol mewn unrhyw weithle. Mae diffoddwyr tân yn dysgu sut i weithio'n dda fel rhan o dîm, yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth amrywiaeth, yn cael eu hanogi i feddwl yn gyflym, yn cymryd cyfrifoldeb ac yn defnyddio menter, i gyfathrebu'n gyflym ac yn gywir ac i beidio â chynhyrfu mewn argyfwng.

Gall cyflogi diffoddwr tân arbed arian i chi

- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf – mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cyflwyno cyrsiau Cymorth Cyntaf yn y Gwaith achrededig. Mae'r sgiliau yma'n cael eu derbyn gan gyflogwyr ac yn gallu cyfrannu at ofyniad y ddeddfwriaeth am y ddarpariaeth o gymorth cyntaf yn y gweithle, gan ostwng y gost o hyfforddiant.

  Cwrs Cymorth Cyntaf pedwar diwrnod arferol £210 - £250 y person eithrio TAW
  Cwrs adnewyddu Cymorth Cyntaf un diwrnod £130 - £150 eithrio TAW.
  Cyfanswm arbedion rhwng £340 - £400

- Hyfforddiant Trafod â Llaw – Mae pob diffoddwr tân yn derbyn hyfforddiant gan hyfforddwr cydnabyddedig yn y gweithdrefnau cywir i'w mabwysiad wrth godi neu symud eitemau. Mae hyn yn cynnwys dysgu technegau symud syml allai atal anafiadau, ac felly, y potensial o ostwng yr amser â gollir yn y gwaith oherwydd salwch neu anafiadau.Cwrs Trafod â Llaw arferol £240 eithrio TAW.

  - Cymorth gyda Rheoliadau **Iechyd a Diogelwch** – mae asesiadau risg a pheryglon tân yn rhan o hyfforddiant diffoddwyr tân er mwyn iddynt allu cefnogi swyddogion iechyd a diogelwch i gwrdd â'u rhwymedigaethau a gwella diogelwch eich holl staff.

  Cwrs Asesu Risg 1 diwrnod arferol £240 eithrio TAW

Cefnogaeth Iechyd Galwedigaethol

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn darparu Iechyd Galwedigaethol cynhwysfawr i'w holl staff.

Nod iechyd galwedigaethol yw amddiffyn a hyrwyddo iechyd y gweithwyr er mwyn cynnal a gwella eu cymhwysedd a'u gallu i weithio, i gyfrannu i'r sefydliad a chynnal amgylchedd diogel ac iach i bawb, yn ogystal â hyrwyddo mabwysiadu gwaith i alluoedd gweithwyr, gan gymryd cyflwr eu hiechyd i ystyriaeth. Cyflawnir hyn drwy'r ddarpariaeth o wasanaethau cefnogi a thechnegol, asesiad risg priodol, gwerthuso, trin a chadw anableddau dros dro a parhaol mor isel ag sy'n bosib a chynorthwyo gweithwyr i reoli iechyd personol.

Mae'n rhaid i ddiffoddwyr tân basio archwiliad meddygol cyn cyflogaeth sy'n pennu lefelau ffitrwydd ac yn asesu hanes meddygol, cryfder, swyddogaeth ysgyfeiniol ac yn darparu archwiliad clinigol systematig a chanllawiau ar arddull byw a hyrwyddo iechyd. Yn ystod eu cyflogaeth gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rhaid i ddiffoddwyr tân y system dyletswydd rhan amser basio archwiliad meddygol cyfnodol unwaith pob tair blynedd.

Mae ymgynghoriadau hunan gyfeiriad ar gael i ddiffoddwyr tân sydd eisiau cyngor cyfrinachol am unrhyw bryder meddygol sy'n berthnasol â'i gyflogaeth/chyflogaeth. Mae gwasanaeth cwnsela cyfrinachol ar gael sy'n cynnwys therapi ymddygiad gwybyddol, cwnsela'n dilyn profedigaeth, cwnsela wedi digwyddiad trawmatig a chwnsela trwy'r Gymraeg.

O dan amgylchiadau arbennig, ar gyngor Ymarferwr Iechyd Galwedigaethol, bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ariannu cyfeiriadau preifat am archwiliadau a thriniaethau meddygol lle mae mantais ariannol glir i'r Gwasanaeth, gall enghreifftiau o driniaethau gynnwys ymyrraeth orthopedig, ffisiotherapi neu driniaeth seicolegol arbenigol.

4. DATBLYGIAD PERSONOL

Mae'r **hyfforddiant** yn barhaus – rhaid i ddiffoddwyr tân gynnal a datblygu eu sgiliau'n barhaol. Mae staff sy'n barod i ddysgu a datblygu yn hanfodol i unrhyw sefydliad. Mae gorsafoedd y System Dyletswydd Rhan Amser yn cynnal sesiynau Hyfforddiant a Datblygu yn wythnosol, fin nos ac am gyfnod o 3 awr.

- **Staff brwdfrydig** – Mae staff sy'n gallu cyflawni eu huchelgeisiau a'u potensial fel arfer yn hapusach ac yn fwy gweithgar yn y gweithle. Rhaid i ddiffoddwyr tân feddu cymhelliant uchel iawn i ymgymryd â'r swydd a bydd y brwdfrydedd yma'n eu cynorthwyo ym mhopeth y gwnânt.

- Gweithwyr sy'n **ymroddedig** – Mae bod yn ddiffoddwr tân yn cymryd ymroddiad ac egni, does neb yn cymryd y swydd yn ysgafn. Mae diffoddwyr tân ymroddedig sy'n ymateb o'r gwaith yn debygol o fod yn staff ymroddgar.

- **Wedi eu hyfforddi i ddelio gydag argyfyngau** - rhaid i ddiffoddwyr tân allu delio gydag amrediad eang o sefyllfaoedd, nid ydynt yn gwybod beth sydd o'u blaenau pan fyddant yn ymateb i argyfwng, ac felly'n debygol o allu ymdopi gyda heriau bywyd gwaith.

Felly, er bod siawns i weithiwr orfod rhuthro i ffwrdd o'r gwaith ar unrhyw adeg, neu fod i ffwrdd o'r gwaith am gyfnod o amser, gallai'r buddion fod yn werthfawr ac mae gan y cyflogwr y boddhad o wybod eu bod yn cefnogi rhywbeth sy'n gwneud gwir wahaniaeth.

Mae cyflogi diffoddwr tân ar y System Dyletswydd Rhan Amser yn gwneud synnwyr busnes da

Rhaid i ddiffoddwyr tân fod wedi eu hyfforddi'n dda, yn grefftus ac yn wybodus os ydynt am weithio'n ddiogel ac yn effeithiol yn yr amrediad eang o ddigwyddiadau gweithredol gelwir iddynt fynychu.

Mae hyfforddiant cychwynnol yn rhoi'r cymwyseddau craidd sylfaenol i ddiffoddwyr tân o dan hyfforddiant i'w galluogi i fynychu digwyddiadau yn ddiogel. Er mwyn eu diogelwch nhw'u hunain a diogelwch eu cydweithwyr, rhaid iddynt fod yn gymwys yn y defnydd o bympiau, ysgolion ac offer diffodd tân a gallu gwisgo offer anadlu, yn ddiogel ac yn effeithiol, cyn eu bod yn weithredol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn cydnabod fod staff y System Dyletswydd Rhan Amser yn cymryd amser i ffwrdd o'u prif gyflogaeth weithiau i ymgymryd â hyfforddiant. Oherwydd hyn, mae cymaint ag sy'n bosib o'r hyfforddiant sylfaenol yn cael ei wneud ar yr orsaf yn ystod sesiynau hyfforddi fin nos ac ar benwythnosau, dim ond 15 diwrnod o'r modiwl hyfforddiant sy'n digwydd mewn wythnos waith Dydd Llun i Ddydd Gwener o fewn blwyddyn gyntaf o wasanaeth.

Rhaid cael ymrwymiad llawn y sawl sy'n cael ei hyfforddi, Rheolwr Gwylfa'r System Dyletswydd Rhan Amser, Rheolwr Gweithrediadau'r Sir, y Ganolfan Sgiliau, Dysgu a Datblygu ac wrth gwrs, y cyflogwr, er mwyn i'r hyfforddiant fod yn llwyddiannus.

I gyflawni'r cymwyseddau angenrheidiol, bydd y diffoddwr tân dan hyfforddiant yn mynychu rhaglen ddatblygu wedi'i strwythuro. Mae'r canlynol yn enghraifft sy'n dangos yr amserlenni sy'n rhan o ddeuddeg mis cyntaf gwasanaeth:

Hyd	Modiwl Diffoddwr Tân
7 Diwrnod	Mae'r cwrs wedi cael ei gynllunio i roi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i fyfyrwyr i'w caniatáu hwy i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol fel aelod o griw gweithredol, gyda phwyslais penodol ar Ddiogelwch, Asesiadau Risg Dynamig ac Ymwybyddiaeth Amgylcheddol.
	Modiwl Offer Anadlu
10 diwrnod	Mae'r cwrs yma wedi cael ei gynllunio fel rhan o raglen datblygu'r unigolyn. Ar ôl cwblhau'r cwrs yn ddiogel ac yn effeithiol, mae'r cwrs yn galluogi diffoddwyr tân i fynychu digwyddiadau brys fel gwisgwyr offer anadlu cymwysedig. Mae'r cwrs yn rhoi'r cyfle i ddiffoddwyr tân o dan hyfforddiant ennill y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â thechnegau chwilio ac achub mewn amgylchedd wedi ei rheoli, wrth gael cael profiad o weithio mewn gwres a mwg o dan amodau tân go iawn.
	Modiwl Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd
2 ddiwrnod	Cwrs sydd wedi ei gynllunio i roi gwybodaeth i fyfyrwyr i'w galluogi hwy i ddelio gyda Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd yn ddiogel ac yn gymwys, ac i gymhwyso'r Systemau Diogel yn y Gwaith cydnabyddedig yn y fath ddigwyddiadau. Cyfraniad theori a sesiynau ymarferol i ddatblygu, profi a chadarnhau cymhwysedd yn holl agweddau o ryddhau a gofalu am anffodusion.

5. CWESTIYNAU CYFFREDIN

Beth sy'n digwydd os yw'r gweithiwr allan mewn digwyddiad trwy'r nos ac yn methu gweithio'r diwrnod canlynol?

Nid yw diffoddwyr tân yn aros mewn digwyddiadau am gyfnodau hir o amser mwyach. Rydym ni'n cydnabod fod cyfnodau estynedig o ymdrech yn gallu arwain at ddamweiniau drwy flinder a diffyg canolbwyntio. Mewn digwyddiadau hir, mae personél yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau ar ôl 4 awr o waith.

Os bydd fy ngweithiwr yn cael ei alw/galw allan, ni fyddaf i'n gwybod am ba hyd?

Mae gan bob peiriant ffôn symudol ac fe anogir eich gweithiwr i ddefnyddio'r cyfleuster yma i roi syniad i'r cyflogwr o bryd byddant yn dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Er enghraifft, mewn digwyddiad o larwm tân diangen, efallai byddan nhw'n ôl o flaen eu desgiau o fewn 20 munud. I ddibenion eglurdeb, mae atodiad wedi cael ei gynnwys gyda'r pecyn sy'n rhoi manylion o'r galwadau wythnosol ar gyfartaledd a hyd pob galwad ar gyfartaledd yn yr orsaf briodol.

Beth os bydd fy ngweithiwr yn cael ei anafu/hanafu mewn digwyddiad?

Mae hyn yn ddigwyddiad prin iawn oherwydd eu bod yn derbyn hyfforddiant at safon uchel iawn cyn bod yn weithredol. Os fydd hyn yn digwydd, mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub bolisïau yn eu lle i ddigolledu'r gweithiwr am unrhyw golled i enillion ar ôl Tâl Salwch Statudol.

Mae ein gweithwyr ar alwad i ddibenion busnes yn aml. Sut fyddai hyn yn gweithio?

Ni fyddan nhw ar alwad gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru os ar alwad gyda chwi. Y prif gyflogwr sy'n cael blaenoriaeth bob amser.

Cefnogaeth i Gyflogwr

Mae'r Gwasanaeth yn cydnabod bydd angen i gyflogwr gysylltu â ni am wybodaeth, cefnogaeth neu sicrwydd weithiau a byddwn ni'n ymdrechu i helpu mewn unrhyw ffordd.

Mae rhagor o wybodaeth ar sut rydym ni'n cyflwyno'n gwasanaeth a'n hymrwymiad i wneud Gogledd Cymru yn lle diogelach drwy amddiffyn y gymuned, busnesau a'r amgylchedd rhag niwed o dân a pheryglon eraill ar ein gwefan;

www.gwastan-gogcymru.org.uk

Am ymholiadau rhwng 9yb – 5yp ddydd Llun i ddydd Gwener, cysylltwch:
Ffôn: 01745 535250 a gofynnwch am gael eich trosglwyddo i'r Rheolwr Ardal perthnasol.